# Grŵp Craidd – Gwybodaeth i Bobl Ifanc

Mae'r gwybodaeth yma ar gael yn Saesneg.

## Beth ydi Grŵp Craidd?

Mewn Cyhadledd Amddiffyn Plant Gychwynol, cafwyd trafodaethau am yr hyn sy'n gweithio'n dda yn dy fywyd yn ogystal â beth yw'r risgiau presennol a pha effaith sylweddol mae rhain yn cael ar dy lles a datblygiad.

Os teimla'r cynhadledd dy fod mewn perygl neu yn gwynebu niwed sylweddol yna caiff Cynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth ei roi ar waith a bydd angen cynnal Grŵp Craidd.

Mae Grŵp Craidd yn cynnwys pobl sy'n ymwneud a ti a dy deulu, fel dy Ymwelydd Iechyd, Athro, Gweithiwr Cymdeithasol ac aelodau pwysig o'r teulu. Mae pawb yno am eu bod yn gofalu amdanat ti. Mi elli di gymryd rhan yn y cyfarfodydd cymaint neu gyn lleied ag y dymunat. Cofia, ti yw'r person pwysicaf sy'n ymwneud a'r Grŵp Craidd

## Beth mae Grŵp Craidd yn ei wneud?

Mae'r Grŵp Craidd yno i sicrhau bod y newidiadau sydd wedi'u cynllunio ar dy gyfer yn y Cynhadledd Amddiffyn Plant yn cael eu rhoi ar waith. Mae'r Grŵp Craidd yn ysgrifennu'r Camau i Newid ar gyfer pob un o'r Nodau Canlyniad a nodwyd yn y Cynhadledd Amddiffyn Plant. Mae nhw'n disgrifio'r hyn sydd angen digwydd ym mhob cam. Mae nhw'n siarad am yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn sydd ddim yn gweithio'n dda. Mae'r Camau i Newid yn disgrifio sut mae'r risk flaenoriaeth yn edrych (cam 2) a beth fyddi di a dy deulu yn ei wneud pan fydd pethau'n 'digon da' (cam 8).  Mae'r Grŵp Craidd yn nodi'r holl wybodaeth yma mewn cynllun cytûn er mwyn i bawb wybod beth a ddisgwylir

# Grŵp Craidd – Gwybodaeth i Bobl Ifanc

## Beth os nad wyf yn cytuno gyda'r cynllun?

Bydd dy Gynllun Amddiffyn Gofal a Chymorth yn cael ei adolygu mewn cyfarfodydd Grŵp Craidd.  Dyma dy lle i siarad am yr hyn ti ddim yn cytuno â ac i pawb deall y newidiadau sydd angen eu gwneud i lleihau'r newid sylweddol rwyt yn mynd drwyddo.

Gobeithio y byddi wedi helpu i lunio'r cynllun. Os nad wyt wedi, neu os nad wyt ti'n hapus ag o mewn unrhyw ffordd, dylet siarad gyda dy Weithiwr Cymdeithasol. Gelli ddweud wrthynt beth nad wyt yn hapus a pham. Bydd hyn yn cael ei drafod yn y cyfarfod Grŵp Craidd nesaf, lle byddant yn siarad am unrhyw newidiadau y gallent eu gwneud i'r cynllun.

## Beth sydd angen i fi ei wneud?

Mae cyfarfodydd y Grŵp Craidd yn ymwneud â ti a dy deulu. Gelli di benderfynu os wyt am fynd i'r cyfarfodydd. Os byddi di yn mynd, mi gei di gwrandawiad – dy farn ti sy'n bwysig. Os hoffet, gelli ysgrifennu beth yr hoffet ei ddweud a gofyn i weithiwr proffesiynol neu aelod o dy deulu ei gymryd gyda nhw i'r cyfarfod. Neu gelli ofyn i eiriolwr dy helpu.

## Beth ydi Eiriolwr?

Eiriolwr yw rhywun sy'n gallu mynd gyda ti i gyfarfodydd i dy helpu i ddweud be wyt ti eisiau ei ddweud a sut wyt yn teimlo. Os nad wyt ti eisiau mynd i'r gynhadledd achos, ond yn awyddus i bawb yno glywed beth wyt ti'n ei feddwl a'i deimlo, gall yr eiriolwr fynd ar dy rhan. Os hoffet i eiriolwr dy helpu, dyweda wrth dy Weithiwr Cymdeithasol.

## Pa mor aml y mae Grŵp Craidd yn cwrdd?

Bydd y cyfarfodydd Grŵp Craidd yn digwydd bob 6 wythnos, a bydd o leiaf dau gyfarfod rhwng y gynhadledd achos gychwynnol a'r adolygiad cyntaf. Mae'r adolygiad cyntaf yn digwydd tri mis ar ôl i dy enw gael ei roi ar y gofrestr amddiffyn plant. Mae'r cyfarfod Grŵp Craidd cyntaf yn digwydd o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl dy gynhadledd achos. Bydd y cyfarfodydd yn stopio os penderfynir cymryd dy enw oddi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant.

# Grŵp Craidd – Gwybodaeth i Bobl Ifanc

## Wrth bwy allaf i ofyn os ydw i eisiau gwybod mwy, neu os nad ydw i'n deall rhywbeth?

Os hoffet ofyn unrhyw beth arall am Grŵpiau Craidd, gelli ofyn i unrhyw un o'r bobl yma:-

- Dy Deulu
- Ymwelydd Iechyd
- Gweithiwr Cymdeithasol
- Athro

## Allaf i gwyno?

Rydym yn gwrando ar dy farn a byddwn bob amser yn ceisio ein gorau, ond ni allwn addo bob amser bod yr hyn yr wyt ti eisiau yn bosibl.

Os wyt yn anhapus gyda'r hyn mae unrhyw berson sy'n gweithio gyda ti wedi ei wneud, mae gennyt hawl i wneud cwyn. Gelli cysylltu â'r Swyddog Cwynion mewn unhryw un o'r ffyrdd canlynol neu gofynna i dy Weithiwr Cymdeithasol neu eiriolwr i dy helpu i wneud hyn:-

| | |
|---|---|
| Rhif rhadffôn: | 0800 032 1099 |
| E-bost: | ssdcomments@denbighshire.gov.uk |
| Ysgrifennwch at: | Swyddog Cwynion - Ty Russell, Ffordd Churton, Y Rhyl, Sir Ddinbych LL18 3DP |
| We: | sirddinbych.gov.uk/eichllais |

Gall y gwybodaeth yma fod ar gael mewn fformatau eraill ar gais.